# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION – CYFARFOD IONAWR 2021

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 20fed o Ionawr, 2021** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod Misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **Ar-lein drwy ddefnyddio Microsoft Teams** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Estynnwyd croeso i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Huw Rowlands.<br>Yn bresennol roedd Aeron M Jones, Michelle Williams, Gwilym Thomas, Elin Evans, Nerys Evans, Rhodri Dwyfor, Jason Hunt, Peter Roberts a Gillian Wynne Thomas (Clerc). |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwilym Williams, Bryn Hughes a Tom Ellis. |
| **3.** | **DATGAN BUDDIANT** |
| | Dim |
| **4.** | **CADARNHAU COFNODION 18/11/2020 A MATERION YN CODI** |
| | Cynigwyd gywirdeb cofnodion Tachedd gan MW gyda GT yn eilio, cytunodd pawb. |
| **5.** | **MATERION MISOL** |
| | a) **AMJ - Grant Loteri**<br>Nid oedd AMJ wedi cael cyfle i baratoi datganiad terfynol hyd yn hyn, bydd yn ei rannu erbyn y cyfarfod nesaf. Esboniodd bod y cynlyn bwyd wedi bod yn hollol lwyddiannus ac hampers Nadolig wedi ei derbyn gan 60 unigolyn i gloi'r cynllun.<br><br>b) **JH - Frondeg - gwaith heb ei orffen, angen gwneud y ffordd ar wal ar y gornel wedi disgyn / torri.**<br>Esboniodd JH bod yr unigolyn oedd wedi codi'r cwyn eisoes wedi cael trafodaeth gyda'r contractwyr newydd ac wedi derbyn cadarnhad bydd y gwaith yn cael ei gyflawni yn y dyfodol agos.<br><br>c) **GLW - Dwr yn rhedeg lawr Llwybr Bwrws yng nghefn Bryn Glas at sgwâr Cae Garw Rhosisaf hefyd angen glanhau o Cae Garw heibio Isfryn a Bryn Glas a Bowydd I'r sgwâr yn Rhosisaf.**<br>Esboniodd y Clerc bod GW wedi cysylltu yn ei diweddaru nad oedd y gwaith wedi ei gyflawni, awgrymodd NE efallai bod y dŵr yn rhedeg o dir ac felly yn anodd ei ddatrys. Penderfynwyd y Clerc adrodd y broblem eto I Gyngor Gwynedd. |

**d) GLW - Llinellau gwyn wedi gwisgo ar y gyffordd Rhosisaf, Maestryfan a Chapel Bryn**
Nid oedd y Clerc wedi derbyn unrhyw ddiweddariad gan y Cyngor Sir. Derbyniwyd cadarnhad gan GW nad oedd y gwaith wedi ei gyflawni.
Y Clerc i ail adrodd am y cwyn i'r Cyngor Sir a chopio AMJ I'r e-bost.

**e) Biniau Halen / Graenu**
Cyn y Nadolig roedd addewid wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd y byddent yn llenwi biniau graenu'r Ward oherwydd y gwaith sydd yn mynd ymlaen i osgoi'r llifogydd yn Rhostryfan. Newidiwyd yr addewid gan Gyngor Gwynedd i bydd lonydd ychwanegol yn cael eu graenu. Adroddodd MW nad oedd hyn wedi cael ei gyflawni gan fod peiriant graenu bach y Cyngor Sir wedi torri.
Roedd hyn wedi creu drwg deimlad mawr ar dudalen Facebook y Cyngor gyda'r aelodau yn derbyn llawer o gwynion gan drigolion y Ward.
Gofynnodd MW I'r Cyngor Cymuned ail ystyried eu penderfyniad blaenorol i beidio derbyn cyfrifoldeb i lenwi'r biniau halen.
Trafodwyd y rhybudd blaenorol oedd y Cyngor Cymuned wedi ei dderbyn gan y cwmni yswiriant i beidio â derbyn cyfrifoldeb. Awgrymodd EE bydd rhaid awgrymu i'r trigolion gysylltu â'r Cyngor Sir I adrodd eu cwynion.
Y Clerc I ofyn i'r Aelod Lleol drefnu cyfarfod gyda'r Prif Weithredwr a Chadeirydd y Cyngor Sir I bwysleisio pryderon y Cyngor Cymuned am ddiogelwch trigolion y Ward yn ystod yr eira a rhew.

**f) Cysgodfa'n bws ar y groesffordd wrth yr ysgol**
Adroddodd y Clerc am bryderon roedd wedi ei dderbyn gan un o drigolion pentref Rhosgadfan am leoliad y safle bws ar ddwy ochor y ffordd yng ngwaelod yr allt wrth yr ysgol yn y pentref a phryderon mae hyn yn achosi i ddiogelwch y plant yn enwedig yn ystod tywydd garw.
Wedi trafodaeth ar y mater penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir dalu sylw arbennig i'r groesffordd. Y Clerc I weithredu.

**g) Problem draen ger giât Llwybr Bryngwyn**
Yn flaenorol roedd addewid wedi ei dderbyn gan RD y buasai yn asesu'r cwynion am y dŵr yn cronni ar y llwybr. Rhannodd luniau oedd wedi ei dynnu o'r safle ac adroddodd nad oedd y dŵr cyn drwg ac oedd wedi ei weld yn y gorffennol ond bod difrod sylweddol wedi digwydd i'r llwybr.
Wedi trafodaeth penderfynwyd disgwyl i'r tywydd wella cyn dechrau unrhyw waith ac yn y cyfamser buasai RD yn nodi'r union waith fydd angen ei gyflawni hyd ar Dryfan Junction.

**h) HR - Un Llais Cymru - Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor**
Yn ystod y mis roedd HR wedi mynychu'r cyfarfod rhithiol ar ran y Cyngor Cymuned. Diweddarodd yr aelodau am beth oedd wedi ei drafod. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

**i) Rhybudd gan yr Heddlu am fyrgaliaethau yn Rhosgadfan a Rhostryfan**
Yn ystod y mis roedd y clerc wedi rhannu gwybodaeth oedd wedi ei dderbyn gan yr heddlu am fyrgaliaethau yn y gymuned ar dudalen Facebook y Cyngor ac annog y trigolion i fod yn wyliadwrus. Y Clerc I rannu unrhyw ddiweddariadau gyda'r aelodau.

**j) EE - Cwyn am ddŵr yn cronni ar y lon Rhwng Glanrhyd a Chanolfan Felin Wnda**
Cadarnhaodd EE bod y gwaith bellach wedi ei gyflawni, yr aelodau i gadw llygaid nad yw'r broblem yn codi eto.

**k) HR - Maes Parcio a Llwybr i'r Ysgol yn Rhostryfan**

Adroddodd HR ei fod gyda'r Clerc wedi mynychu cyfarfod cyn y Nadolig i drafod y mater, roedd balchder mawr yn y gymuned bod y project wedi cael caniatâd gan y Rheilffordd I fwrw mlaen gyda'r gwaith a bod Cwmni Griffiths wedi cynnig paratoi'r gwaith. Derbyniwyd cais am gefnogaeth gyffredinol y Cyngor Cymuned.

Derbyniwyd gwybodaeth bellach gan Nia Parry bod:

- Adroddiad Ecoleg wedi ei baratoi ac nid oes dim byd byw yn byw yn y tyfiant felly bydd modd bwrw mlaen 'i'w dorri i gwpwl o droedfeddi er mwyn sicrhau nad oes adar yn dod i nythu yno.
- Y prosiect wedi derbyn cymorth gan Siân Gwnellian sydd wedi llythyru a Mr Garem Jackson, Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd I adrodd pryderon y gymuned.
- Mae gobeithion bydd modd hefyd gael trefn ar ail gynllunio blaen yr ysgol a'r reilings yno yn ôl yr argymhellion yn adroddiad I&D.

Y clerc i adrodd am gefnogaeth y Cyngor Cymuned i bwyllgor y prosiect.

**l) Cwynion i ymwneud a Mynwent Cefnfaes**

Yn ystod y mis roedd y Clerc wedi derbyn cwyn bod mwd wedi casglu o amgylch rhai beddi yn y fynwent. Yn dilyn asesiad o'r sefyllfa gan NE penderfynwyd mai tyrchod daer oedd gwraidd y broblem. Gofynnodd y Clerc os oedd posib gwneud rhywbeth i arbed hyn yn y dyfodol. Cytunodd yr aelodau bydd yn anodd iawn gwneud dim i atal hyn.
Derbyniwyd hefyd gwyn bod llifogydd i lawr y llwybr o ganlyniad y tap yn gollwng. Roedd GW galw ac atal y tap rhag gollwng rhagor. Penderfynwyd mai rhew oedd achos y broblem gan fod arbenigwr wedi gwneud gwaith arno'n ddiweddar. Yr aelodau i gadw golwg arno.

**m) Cae Chwarae Rhosgadfan**

Derbyniwyd cais answyddogol i'r Cyngor Cymuned dderbyn cyfrifoldeb cyflawn am y cae chwarau ac arwain ceisiadau am grantiau yn y dyfodol gan mai dim ond un sydd ar Bwyllgor y Cae chwarae bellach.
Y Clerc I gysoni cyfrifoldebau'r Cyngor ar gaeau chwarae Rhosgadfan, Rhostryfan a Saron ar mater i'w drafod eto mis nesaf.

**n) Ystyried oblygiadau posib y Cyngor Cymuned petai lefel premiwm ail gartrefi a thai gwag yn codi.**

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cadw i benderfyniad blaenorol y Cyngor Cymuned i godi'r Praesept gyda chwyddiant i £28,840 ar gyfer 2021/22.
Y Clerc i rannu linc ymgynghoriad y Cyngor Sir ar dudalen Facebook y Cyngor i'r trigolion cael gosod ei barn.

**o) AMJ - Cynllun Ymgynghori gydag Etholwyr y Ward**

Gan fod AMJ wedi gorfod gadael y cyfarfod yn fuan penderfynwyd trafod y mater yn y cyfarfod nesaf.

**p) Canlyniad Archwiliad 2019/20**

Trafodwyd materion yn codi o'r archwiliad, cynigiodd JH dderbyn y sylwadau gyda NE yn eilio, a fei mabwysiadwyd.
Y Clerc i rannu Rhybudd y Canlyniad ar dudalen Facebook y Cyngor.

q) **Diweddariad am ail agor lon Rhostryfan**

Derbyniwyd wybodaeth gan Gwmni Griffiths bydd gwaith i osod wyneb newydd ar y Sgwâr ynghyd â'r ffordd sy'n arwain i'r Sgwâr o Ffrwd Cae Du yn dechrau ddydd Llun 25 Ionawr am gyfnod o bum niwrnod. Yn ystod y cyfnod hwn efallai y bydd oedi cyn i draffig allu mynd i mewn ac allan o Fro Wyled. Tra bo'r gwaith o osod wyneb newydd yn cael ei wneud, bydd mynediad i gerddwyr yn cael ei ddargyfeirio dros dro ar hyd y llwybr y tu ôl i'r Capel yn hytrach na thrwy ganol y Pentref. Bydd y ffordd drwy ganol y Pentref yn ailagor i'r holl draffig nos Wener, 29 Ionawr, gyda system rheoli traffig yn ei lle am bythefnos arall fel y gellir cwblhau gwaith adeiladu parhaus yn yr ardal yn ddiogel. O fewn yr wythnosau nesaf bydd angen cau'r bont droed y tu ôl i ystâd Bro Wyled, am tua chwe wythnos, er mwyn i'r gwaith adeiladu pont droed newydd ddechrau.

Y clerc i rannu'r wybodaeth ar dudalen Facebook y Cyngor.

## 6. DERBYN ADRODDIADAU

Dim i'w adrodd

## 7. MATERION ARIANNOL

a) **Sefyllfa ariannol y Cyngor 20/01/20**

**<u>Cyfrif Cadw</u>**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen (30.11.20) | **£60,374.36** |
| + Llogau Bank | £1.51 |
| Trosglwyddo arian i'r Cyfrif Cyfredol | £6,000.00 |
| Balans ar derfyn busnes (28.12.20) | **£54.375.87** |

**<u>Cyfrif Cyfredol</u>**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen (28.11.20) | £639.45 |
| + Gwilym Jones a'I Fab Claddedigaeth | £1,000.00 |
| - Cylog Clerc | £575.00 |
| + Trosglwyddiad o'r Cyfrif Cadw | £6,000.00 |
| - A+M Catering (Cynllyn Bwyd) | £1,384.50 |
| Balans ar derfyn busnes (28.12.20) | £5,679.95 |

b) **Taliadau i'w cymeradwyo**

| | | |
|---|---|---|
| Cyflog clerc | £ | 575.00 |
| Torri gwair | £ | 2,276.50 |
| A&M Catering | £ | 653.75 |
| Aeron Jones (Hampers Nadolig) | £ | 2,058.11 |

**Esboniodd y Clerc bod angen trawsglwyddo mwy o arian i'r cyfrif cyfredol gan fod anfoneb annisgwyl wedi ei dderbyn. Y Clerc I drosglwyddo £10,000.**
**Cynigwyd cywirdeb y cyfrifon gan MW gyda JH yn eilio.**

c) **Mandate y Banc**

Esboniodd y Clerc ei bod wedi llwyddo i newid cyfeiriad ar gyfer derbyn y datganiadau ond yn anffodus nid oedd wedi llwyddo newid y Mandate gan fod camgymeriad gyda'i thystiolaeth adnabod.

I berwyl hyn penderfynwyd ddileu'r Clerc Blaenorol sef Eleri Thomas o'r Mandate a threfnu yn hytrach bod dau o'r llofnodwyr presennol yn arwyddo yn y dyfodol.

Y Clerc I weithredu.

| 8. | MATERION CYNLLUNIO |
|---|---|
| | **a) Rhif Cais: C20/1099/24/DT - Terfyn, Rhos Isaf, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7ND**<br>Rhannodd JH sylwadau a phryderon bod y gwaith yn rhy agos at beipen ddwr a rhannodd reolau Dwr Cymru.<br>Rhannodd NE lythyr oedd wedi ei dderbyn gan gymdogion agosaf y safle sydd wedi gyrru at yr Adran Gynllunio yn gwrthwynebu'r cais ar sail nad oeddent wedi derbyn unrhyw Rybudd Gynllunio ac yn anwybodol bod unrhyw waith am gael ei gynnal tan trafod y mater gyda NE.<br>Rhannodd NE gwynion pellach bod coed a llwyni wedi ei glirio ac adwy wedi ei ledu.<br>Y Clerc i yrru gwrthwynebiad y Cyngor am y tro a gofyn am estyniad i ymateb eto wedi'r Cyngor Sir sicrhau bod y broses Cynllunio gywir wedi ei ddilyn.<br><br>**b) Rhif Cais: C20/1083/24/LL - Pentre, Saron, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5UH**<br>Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais, y Clerc I ddiweddaru'r Adran Gynllunio.<br><br>**c) Rhif Cais: C20/1093/24/LL - Tir Ger / Land By Talardd, Dinas, Caernarfon, LL54 7YN**<br>Roedd y Cyngor wedi gyrru yn flaenorol yn gofyn i'r Cyngor ystyried newid lleoliad y fynedfa i'r lon fawr yn hytrach nac lon Rhosisaf. Y Clerc I ail gyflwyno sylwadau'r Cyngor. |
| **9.** | **GOHEBIAETH A CHYLCHGRONAU** |
| | **a) Rhybudd - Cau Ffordd ger Tan Rallt, Rhostryfan ar yr 8fed o Fawrth, 2021**<br>Y Clerc I'w rannu ar dudalen Facebook y Cyngor<br><br>**b) Rhybudd - Cau Ffordd Dosbarth III ger Bryn-Rhug, Rhostryfan, 3ydd Chwefror, 2021**<br>Y Clerc I'w rannu ar dudalen Facebook y Cyngor<br><br>**c) Gorchymyn Cau Llwybrau Dros Dro - Ffordd Osgoi C'fon a Bontnewydd**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau<br><br>**d) Y Farchnad Dai Gwyliau**<br>Y Clerc I yrru cefnogaeth y Cyngor ymlaen<br><br>**e) Ymchwil Prosiect Iechyd a Lles Dyffryn Nantlle**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. |
| **10.** | **MATERION CYFARFOD NESAF** |
| | **Dyddiad:** 17eg o Chwefror, 2021<br>**Lleoliad:** **Ar lein drwy ddefnyddio Microsoft Teams** |